

# Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

## Welsh Language Advisory Panel

22 Chwefror 2018 am 10 o'r gloch  
Ystafell Gynadledda Democrataidd, Neuadd y Sir

### COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Enw:		Grŵp / Swydd:
Cyng. Peter Hughes-Griffiths	PHG	Plaid Cymru (Cadeirydd)
Cyng. Edward Thomas	ET	Annibynnol (Is-gadeirydd)
Cyng. Carys Jones	CJ	Plaid Cymru
Cyng. Dorian Williams	DW	Plaid Cymru
Cyng. John Prosser	JP	Llafur
Cyng. Alun Lenny	AL	Plaid Cymru
Cyng. Sue Allen	SA	Annibynnol
Cyng. Tina Higgins	TH	Llafur
<b>Swyddogion</b>		
Gwyneth Ayers	GA	Rheolwr Polisi a Phartneriaeth
Kelly Morris	KM	Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu
Llinos Evans	LLE	Swyddog Polisi a Phartneriaeth
Bethan James	BJ	Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	<b>Croeso ac Ymddiheuriadau</b> Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Peter. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Joseph Davies, Wendy Walters a Myfanwy Jones.	
2.	<b>Cofnodion y cyfarfod diwethaf 11.12.17</b> Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. Nid oedd materion penodol yn codi.	
3.	<b>Cyflwyniad gan y tîm Dysgu a Datblygu – Kelly Morris, Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu</b>	

	<p>Esboniodd KM y cyd-destun o ran ei swydd, gan nodi ei bod hi'n rhan o'r tîm Dysgu a Datblygu ers mis Gorffennaf 2017. Ers cychwyn ei swydd, mae hi wedi bod yn cyfarfod â staff o fewn adrannau, gan dderbyn adborth ar sut y gallwn ni, fel Cyngor, gefnogi staff i ddefnyddio eu sgiliau yn y gweithle. Mae 'ofn a diffyg hyder' wedi eu nodi droeon gan staff ac felly mae cyfle i deilwra darpariaeth er mwyn dechrau ymdrin â hynny.</p> <p>Datblygwyd Strategaeth Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg yn ddiweddar, gyda'r nod o ymgorffori'r iaith i mewn i ddiwylliant y sefydliad.</p> <p>Mae 79 o staff ar gyrsiau cymunedol gyda 11 ar y rhestr aros, 37 o staff ar gyrsiau gwella ac mae staff hefyd yn dilyn y ddarpariaeth 'Croeso Cymraeg' sydd ar gael drwy'r Ganolfan Dysgu Genedlaethol. Mae'r cwrs yn un 10 awr ar-lein ac erbyn hyn mae 161 aelod o staff wedi cofrestru, gyda 40 wedi cwblhau. Dy ni wedi derbyn adborth positif iawn gan aelodau o staff sydd wedi cwblhau.</p> <p>Esboniodd KM bod saith aelod o staff wedi mynychu'r cwrs preswyl 'Cymraeg Gwaith' yn Nant Gwrtheyrn dros wythnos hanner tymor. Roedd y staff hynny ar lefel 3/4 cyn mynychu. Eto, mae'r adborth oddi wrth y staff wedi bod yn positif iawn.</p> <p>Mae nifer o ddatblygiadau eraill ar waith, megis y cyrsiau bloc Sylfaen a Chanolradd a bydd staff o'r Adran Cymunedau yn bennaf, yn mynychu rhain.</p> <p>Yn ystod y misoedd diwethaf, mae KM wedi bod yn gweithio ar Gytundeb Iaith Gymraeg, sy'n amlinellu cyfrifoldebau mewn achlysuron lle nad yw aelod o staff ddim yn cyrraedd y lefel iaith sydd wedi ei nodi fel rhan o swydd ddisgrifiad. Mae siart llif wedi ei baratoi sy'n dangos yn glir y llwybr a'r cyfrifoldebau o ran dysgu'r Gymraeg fel rhan o'r broses recriwtio.</p> <p>Mae datblygiadau hefyd o ran y rhaglen Mentora, ac mae adborth wrth staff yn nodi mai cyfleoedd llai ffurfiol sydd eu hangen, law yn llaw a'r gefnogaeth mwy ffurfiol. Ynghyd â hyn, mae adnoddau wedi eu datblygu ar gyfer y fewnwyd, llwybrau hyfforddiant ac ymchwil pellach o ran adnoddau ar-lein ac e-ddysgu.</p> <p>Cytunwyd i gylchredeg y cyflwyniad at yr Aelodau.</p> <p>Awgrymwyd y dylid creu astudiaethau achos o ran y staff a fu'n rhan o'r cwrs yn Nant Gwrtheyrn. Cytunwyd i wneud hyn.</p> <p>Cafwyd ymholiad o ran cwrs i loywi sgiliau ysgrifenedig a cytunwyd i edrych ymhellach ar hyn.</p> <p>Diolchwyd i Kelly am ei chyflwyniad manwl.</p>	<p>BJ</p> <p>KM</p> <p>KM</p>
<p><b>4.</b></p>	<p><b>Trefniadau Gŵyl Dewi</b></p> <p>Esboniodd BJ y cyd-destun o ran Arweinwyr Iaith adrannol, fel pwyntiau cyswllt o fewn yr adrannau unigol o ran y Gymraeg a'r Safonau Iaith. Mae'r Adran Cymunedau ac Amgylchedd eisoes wedi sefydlu Arweinwyr Iaith.</p> <p>Yn dilyn cyfarfod gyda'r tîm Polisi a Phartneriaeth, mae'r Arweinwyr Iaith wedi trefnu rhaglen o weithgareddau ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi. Bydd amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys 'Eisteddfod-ish' a sesiynau darllen o fewn y Llyfrgelloedd.</p>	

	<p>Fel rhan o ddatliadau'r Cyngor, bydd yr ymgyrch 'Pa bynnag ffordd' hefyd yn hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, gyda chlipiau fideo a lluniau a baratowyd gan staff fel rhan o'r Digwyddiad Dathlu.</p> <p>Nodwyd bod seminar wedi ei drefnu ar gyfer y Aelodau Etholedig ar Fawrth y 1af – gofynnwyd a fyddai modd osgoi trefnu seminarau ac hyfforddiant fel bod Aelodau Etholedig yn medru cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol a sirol.</p>	
5.	<p><b>Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – crynodeb o'r ymatebion 'Taro'r Cydbwysedd yn iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg'</b></p> <p>Esboniodd BJ y cyd-destun o ran ymgynghoriad Bil y Gymraeg gan nodi bod y Cyngor Sir wedi paratoi ymateb. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi'r holl ymatebion ac wedi ei gyhoeddi ar y wefan. Ers cau'r ymgynghoriad, mae newid Gweinidog wedi bod, a bellach, Y Farwnes Eluned Morgan AC yw'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg.</p> <p>Mae Eluned Morgan AC wedi cyhoeddi na fydd cwynion ynghylch y Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i Swyddfa Ombwdsman Cymru, er bod y cynnig hynny wedi ei wneud gan yr Ombwdsman cyfredol.</p> <p>Mae tymor y Comisiynydd Iaith cyfredol yn dod i ben y flwyddyn nesaf, ac mae sylw wedi bod yn ddiweddar yn y wasg o ran trefnu olynnydd i Meri Huws.</p> <p>Cytunwyd y bydd y tîm Polisi a Phartneriaeth yn danfon unrhyw ddiweddariad a ddaw ynglŷn â hyn at Aelodau'r Panel.</p>	Tîm Polisi a Partneriaeth
6.	<p><b>Unrhyw fater arall</b></p> <p>Cynhaliwyd Dydd Miwsig Cymru ar 9 Chwefror ac fel rhan o'r Diwrnod, bu'r tair Canolfan Hamdden yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman yn chwarae cerddoriaeth Gymraeg. Defnyddiwyd Apton yn nghanolfan Caerfyrddin a Radio Cymru yn y ddwy ganolfan arall.</p> <p>Mae potensial o ran cynnwys y marchnadoedd a'r theatrau yn hyn hefyd ac mae adnodd Cymru FM hefyd ar gael i'w ddarlledu dros y we.</p> <p>Cytunwyd i wneud ymholiadau o ran chwarae cerddoriaeth Gymraeg yn y marchnadoedd yn ystod wythnos Gŵyl Ddewi.</p> <p>Nodwyd Llongyfarchiadau i Fenter Bro Dinefwr a Chyngor Tref Llandeilo ar ddenu cyllid 'Cronfa'r Loteri Fawr' i ddatblygu Canolfan Iaith a Threftadaeth yn Neuadd Tref Llandeilo.</p>	LLE
7.	<p><b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b></p> <p>8 Mai 2018 am 1:30 o'r gloch. Cytunwyd i gyfarfod yng Nghanolfan Y Lle, Llanelli.</p> <p>Cytunwyd i wahodd Heledd Llwyd a Sara Rees, swyddogion Y Gymraeg mewn busnes drwy Mentrau Iaith Cymru.</p>	BJ  BJ